Adroddiad ar

**Cylch Meithrin Y Gromlech**

Ysgol Gynradd Dyffryn Ardudwy
Dyffryn Ardudwy
LL44 2EP

Dyddiad yr arolygiad: **Mawrth 2026**

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Y Gromlech

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin y Gromlech |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Kirstye Roberts |
| Person â gofal | Lyn Bisseker |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Ystod oedran y plant | 2.5 - 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 7 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 2 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun – Dydd Gwener 08:50 – 12:50 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma'r arolygiad cyntaf ers cofrestru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 22/03/2018 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 24/03/2026 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
| --- | --- |
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Digonol** |
| **Yr amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol** |

## Diffyg cydymffurfio

Hysbyswyd y darparwr nad yw'r lleoliad yn cydymffurfio gyda'r rheoliadau, ni chyflwynwyd hysbysiad, ond mae'r rhain yn cael eu hadnabod fel meysydd i'w gwella, a dylai'r unigolyn cyfrifol roddi sylw iddynt.

## Argymhellion

A1 Cryfhau arferion addysgu i gefnogi plant i wneud y cynnydd gorau yn eu dysgu

A2 Mynd i'r afael â'r meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad

A3 Sicrhau bod y polisi recriwtio diogel ar gyfer gwirfoddolwyr yn gyfredol ac effeithiol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae gan blant lais cryf ac maent yn cael cyfleoedd cyson i wneud dewisiadau. Wrth gyrraedd, maent yn mynd yn syth at eu hoff ardaloedd ac yn ymgysylltu'n ystyrlon â gweithgareddau. Mae bron bob plentyn yn symud o gwmpas yr amgylchedd dysgu yn hyderus, gan archwilio'r ystod eang o brofiadau chwarae sydd ar gael. O ganlyniad, maent yn arwain eu dysgu a'u profiadau eu hunain yn effeithiol, ac yn ymgysylltu â gweithgareddau o'u dewis ar eu cyflymder eu hunain.

Mae bron bob plentyn yn ymdopi'n dda wrth wahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr. Maent yn cyrraedd yn hapus ac yn ymgartrefu'n gyflym, gan deimlo'n ddiogel yn yr amgylchedd oherwydd y perthnasoedd agos sydd ganddynt â'r ymarferwyr. Mae llawer o blant yn hyderus wrth ofyn am gymorth neu gysur pan fo angen ac yn ymateb yn gadarnhaol i ganmoliaeth, sy'n meithrin eu hyder i rannu eu llwyddiannau. Er enghraifft, maent yn falch o wahodd ymarferwyr ac ymwelwyr i weld eu gwaith paentio ac yn ymateb yn frwdfrydig pan gaiff eu hymdrechion eu cydnabod. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gyfarwydd â'r trefniadau dyddiol ac yn dilyn y gweithdrefnau'n rhwydd, sy'n cefnogi eu sicrwydd wrth ymdopi â phrofiadau newydd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau cymdeithasol a rhyngweithio cadarn. Maent yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda, gan ddangos parch tuag at ymarferwyr a'u ffrindiau. Maent yn mwynhau cymdeithasu yn ystod amser byrbryd, gan feithrin agweddau cadarnhaol tuag at ei gilydd. Mae llawer o blant yn rhannu ac yn cymryd tro'n briodol. Er enghraifft, maent yn rhannu adnoddau wrth chwarae yn y twba dŵr ac yn cymryd tro i symud dŵr o gynhwysydd bach i un mwy. Mae llawer hefyd yn cydweithio'n effeithiol, er enghraifft wrth ddefnyddio rhaw a thwmffat i lenwi potel â thywod, gan ddychmygu eu bod yn paratoi bwyd i anifeiliaid fferm.

Mae bron bob plentyn yn egnïol ac yn dangos mwynhad amlwg wrth chwarae. Maent yn canolbwyntio'n dda ac yn dyfalbarhau wrth ymgymryd â phrofiadau chwarae, gan fwynhau arbrofi ag ystod o offer a deunyddiau. Maent yn cael llawer o hwyl wrth gymysgu cynhwysion i wneud toes ac yn ei ddefnyddio'n greadigol yn eu chwarae. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos chwilfrydedd naturiol am y byd o'u cwmpas ac yn defnyddio eu dychymyg yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn rhoi tortsh mewn tegell ac yn esgus bod y dŵr yn berwi.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibyniaeth priodol. Maent yn arwain eu chwarae drwy ddilyn eu diddordebau ac yn symud adnoddau rhwng ardaloedd gwahanol i'w defnyddio'n bwrpasol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn diwallu eu hanghenion personol yn llwyddiannus, megis defnyddio'r tŷ bach, hongian eu heiddo, a gwisgo neu dynnu eu

hesgidiau. Mae bron bob plentyn yn ymgymryd â thasgau dyddiol yn annibynnol, gan gynnwys golchi eu dwylo ac arllwys eu diod eu hunain yn ystod amser byrbryd.

### Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

### Gofal a datblygiad: Da

Mae ymarferwyr yn rhoi blaenoriaeth glir i ddiogelu plant ac yn dilyn polisïau a gweithdrefnau cadarn. Maent wedi cwblhau hyfforddiant diogelu priodol ac yn deall eu dyletswyddau'n dda. Serch hynny, nid yw trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn yr ardaloedd chwarae yn bodloni'r gofynion, ac maent yn destun pryder gan nid yw pob risg yn yr amgylchedd yn cael sylw prydlon ac effeithiol. Mae ymarferwyr yn cofnodi damweiniau'n fanwl ac yn sicrhau bod rhieni neu ofalwyr yn cael gwybod am y digwyddiad.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o'u rôl a'u cyfrifoldebau wrth hybu iechyd plant. Maent yn gweithredu trefniadau effeithiol i atal lledaeniad heintiau, megis sicrhau bod plant yn golchi eu dwylo a bod arwynebau yn cael eu diheintio cyn amser bwyd. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo bwyta'n iach drwy annog plant i fwyta ffrwythau amser byrbryd a chynnig dŵr neu lefrith yn unig. Yn ogystal, maent yn sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd rheolaidd a buddiol i dreulio amser yn yr awyr agored.

Mae ymarferwyr yn meithrin perthnasoedd cynnes â'r plant drwy eu trin â gofal a pharch. Maent yn siarad â'r plant yn dyner ac yn fwriadus ac yn defnyddio dulliau cyson ac effeithiol i hybu ymddygiad cadarnhaol, yn unol â pholisi'r lleoliad. Er enghraifft, maent yn canmol y plant yn rheolaidd am eu hymdrechion, eu parodrwydd i helpu, ac am wrando'n dda. Mae hyn yn cefnogi hunanhyder y plant ac yn meithrin eu dealltwriaeth o barch. Mae ymarferwyr yn cynnig cysur pan fo angen ac yn fedrus wrth gefnogi'r plant i reoli eu teimladau. Mae ymarferwyr yn gweithredu fel modelau rôl cadarnhaol drwy wrando, cydweithio ac egluro mewn modd clir a gofalgar. Er enghraifft, pan nad oes digon o le i blentyn chwarae yn y tywod, mae ymarferwyr yn esbonio hyn yn garedig ac yn cynnig gweithgaredd arall addas.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn cynllunio gweithgareddau sy'n adlewyrchu eu diddordebau. Er enghraifft, yn dilyn diddordeb mewn pitsas yn y gornel chwarae rôl, trefnwyd gweithgaredd gwneud pitsa gan ddefnyddio adnoddau celf a chrefft. Mae ymarferwyr yn dilyn trefniadau addas i adnabod a chefnogi anghenion dietegol unigol plant, gan gynnwys y rhai ag alergeddau. Mae system gofrestru drylwyr ar

waith sy’n sicrhau bod ganddynt wybodaeth berthnasol am anghenion ac hoffterau plant cyn iddynt ddechrau.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Digonol

Mae ymarferwyr yn dangos dealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant ac yn gwrando ar syniadau a dyheadau’r plant yn fwriadus i gyfoethogi’r ddarpariaeth. Er enghraifft, ar ôl sylwi ar blant yn ymddiddori mewn hadau y tu mewn i afalau, maent yn cynllunio cyfleoedd i blannu hadau ac archwilio tyfiant yn yr ardd. Mae hyn yn annog brwdfrydedd ac yn hybu perchnogaeth y plant dros eu chwarae a’u dysgu.

Mae ymarferwyr yn meithrin perthnasoedd cynnes â’r plant ac yn eu cefnogi’n briodol wrth iddynt chwarae ac archwilio. Maent yn darparu amgylchedd sy’n hybu datblygiad medrau sylfaenol y plant yn addas, gan gynnwys cyfleoedd i ddefnyddio offer marcio a chreu. Er enghraifft, maent yn annog plant i ddefnyddio iaith a rhifedd yn naturiol trwy osod ffonau amrywiol, llyfrau rhifau a chalendrau yn yr ardaloedd chwarae.

Mae ymarferwyr yn addasu’r ddarpariaeth yn unol â diddordebau’r plant. Er enghraifft, maent yn ymateb yn brydlon i arsylwadau o blant yn mwynhau ysgrifennu eu henwau drwy ychwanegu offer marcio i’r tywod, gan gyfoethogi’r profiad dysgu. Maent yn modelu iaith yn fedrus mewn sefyllfaoedd chwarae rôl, er enghraifft wrth ddangos sut i archebu mwy o bitsas, sy’n cefnogi datblygiad iaith y plant yn dda. Fodd bynnag, er eu bod yn cynnig cyfleoedd priodol i blant drin a thrafod llyfrau, mae’r defnydd cyson o gwestiynau caeedig yn cyfyngu ar ddatblygiad medrau cyfathrebu estynedig a meddwl beirniadol y plant.

Mae ymarferwyr yn cynnig profiadau buddiol i ddatblygu medrau creadigol a chorfforol y plant. Er enghraifft, mae plant yn defnyddio offer mawr yn yr ardal allanol i greu bws er mwyn teithio i’r dref leol, yn ogystal â defnyddio eitemau naturiol i addurno crempogau toes.

Mae ymarferwyr yn darparu adnoddau priodol i gefnogi medrau rhifedd y plant, megis clorian yn yr ardal gegin. Serch hynny, nid yw’r cyfleoedd hyn bob amser yn cael eu defnyddio’n effeithiol i ddatblygu geirfa fathemategol neu i annog cyfrif rheolaidd mewn cyd-destunau ystyrlon.

Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau addas sy’n cyfrannu’n gadarnhaol at ddatblygiad cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol y plant. Maent yn trefnu ymweliadau buddiol â’r gymuned leol, megis ymweliadau i’r fferm a’r goedwig, sy’n cefnogi plant i ddatblygu gwell dealltwriaeth o’u hamgylchedd. Yn ogystal, maent yn croesawu ymwelwyr buddiol fel y ficer lleol, sy’n helpu’r plant i ddysgu am draddodiadau crefyddol fel Christingle, a gweithwyr y rheilffyrdd sy’n hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddiogelwch.

Mae ymarferwyr yn gwneud arsylwadau priodol o chwarae a dysgu'r plant. Fodd bynnag, mae ansawdd yr arsylwadau hyn yn anghyson, gydag ychydig yn dangos cynnydd plant unigol dros amser. Maent yn creu proffiliau un dudalen buddiol sy'n defnyddio gwybodaeth berthnasol gan rieni a gofalwyr, ac yn eu galluogi i gynllunio cefnogaeth fwy addas.

Mae ymarferwyr yn dathlu cynnydd cynnar plant yn briodol drwy arddangos eu gwaith ar waliau ac mewn llyfrau teithiau dysgu cynhwysfawr, sy'n cael eu rhannu'n rheolaidd gyda rhieni a gofalwyr. Mae hyn yn darparu cofnod buddiol o brofiadau plant tra'n mynychu'r lleoliad. Yn ogystal, maent yn meithrin perthynas gadarnhaol â rhieni a gofalwyr, gan sicrhau cyfathrebu dyddiol effeithiol drwy sgyrsiau uniongyrchol a thrwy blatfform digidol.

## Yr amgylchedd: Digonol

Mae arweinwyr yn gweithredu trefniadau cadarn i reoli mynediad i'r safle, ynghyd â gweithdrefnau clir i sicrhau bod ymwelwyr yn mewngofnodi. Mae ymarferwyr yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd ac yn eu cofnodi'n effeithiol. Maent yn sicrhau bod pob cofnod sy'n ymwneud â'r gwasanaeth yn cael ei gadw'n ddiogel ac yn unol â'r gofynion.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod prosesau priodol ar waith i fonitro a rheoli peryglon ac yn dechrau dangos dealltwriaeth o'r angen i gynnal asesiadau risg deinameg parhaus. Er hyn, nid yw'r asesiadau risg bob amser yn cael eu gweithredu'n ddigon cadarn a nid yw arweinwyr yn ymateb yn ddigon prydlon er mwyn sicrhau diogelwch effeithiol. O ganlyniad, mae hyn yn peri risg bosibl i ddiogelwch y plant ac nid yw'n bodloni'r rheoliadau perthnasol.

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd hunangynhwysol sy'n groesawgar, cynnes ac yn cael ei drefnu'n effeithiol. Maent yn gwneud defnydd da o'r lleoliad a chyfleusterau'r safle. Er enghraifft, mae'r cyntedd wedi ei drefnu'n briodol i blant gadw eu heiddo yn annibynnol, ynghyd ag arddangos posteri gwybodaeth sy'n sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn cael mynediad at wybodaeth gyfredol. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys cegin briodol sy'n hwyluso gweithgareddau coginio, ynghyd â chyfleusterau ar gyfer storio bwyd a golchi llestri. Mae'r toiledau a chyfleusterau golchi a sychu dwylo, a'r ardal newid cewynnau yn addas ac yn hyrwyddo urddas y plant yn effeithiol.

Yn y brif ystafell, mae'r amgylchedd yn agored gyda chelfi addas ac unedau storio hygyrch sy'n hybu annibyniaeth plant yn effeithiol. Mae arweinwyr yn sicrhau ystod gyfoethog o gyfleoedd i ddatblygu chwilfrydedd y plant, gan gynnwys cornel chwarae rôl, ardal ddarganfod, ac ardal glyd i ymlacio neu fwynhau darllen. Mae arweinwyr yn meithrin ymdeimlad o berthyn drwy arddangos enghreifftiau o waith y plant a ffotograffau ohonynt gyda'u teuluoedd. Mae arweinwyr yn darparu profiadau ysgogol yn yr ardal awyr agored, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer plannu hadau a rasio cerbydau. Maent yn sicrhau bod

arwynebau amrywiol yn galluogi’r plant i gymryd risgiau priodol ac i ddatblygu eu medrau corfforol yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn darparu adnoddau o safon dda sy’n addas ar gyfer oedran a cham datblygiad y plant. Maent yn sicrhau cyfleoedd i blant archwilio ac ymchwilio, er enghraifft drwy osod adnoddau naturiol fel cregyn, cerrig a darnau coed yn yr ardal ddarganfod. Yn yr un modd, mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i ddefnyddio adnoddau go iawn, megis llestri yn yr ardal chwarae rôl, sy’n cefnogi datblygiad dychymyg, hyder a medrau cymdeithasol y plant.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol plant yn effeithiol drwy ddarparu adnoddau sy’n eu galluogi i fynegi eu teimladau. Yn ogystal, maent yn sicrhau darpariaeth gynhwysol drwy gynnig adnoddau pwrpasol, gan gynnwys doliau, offerynnau cerdd a llyfrau storïau aml-ddiwylliannol. Mae’r rhain yn cefnogi’r plant i ddatblygu parch at eraill, deall gwahaniaethau, ac ehangu eu hymwybyddiaeth o ddiwylliannau amrywiol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Digonol

Mae gan yr arweinwyr, ynghyd â’r pwyllgor rheoli, weledigaeth addas sy’n rhoi pwyslais clir ar hyrwyddo llesiant plant. Mae hyn yn cyfrannu at ethos gofalgar lle mae plant ac ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae arweinwyr yn dangos ymrwymiad parhaus i wella’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau’r plant. O ganlyniad, mae eu harferion rheolaidd a’u hagweddau cadarnhaol yn creu amgylchedd gefnogol sy’n cynnig profiadau buddiol i blant. Mae datganiad o ddiben clir ar waith sy’n rhoi darlun cywir o’r lleoliad, gan alluogi rhieni a gofalwyr i wneud penderfyniadau gwybodus.

Mae arweinwyr yn gweithredu trefniadau addas ar gyfer cynllunio gwelliant. Maent yn cydweithio’n briodol i werthuso’r ddarpariaeth drwy ymgynghori â phlant, rhieni a gofalwyr, ac ymarferwyr. Maent yn nodi blaenoriaethau perthnasol drwy gynllun datblygu sy’n adlewyrchu canfyddiadau gwerthuso, ac yn gwneud defnydd synhwyrol o grantiau i wella’r ddarpariaeth. Er enghraifft, maent wedi buddsoddi mewn canopi a sied dywod i ddatblygu’r ddarpariaeth awyr agored ymhellach.

Mae arweinwyr yn gwirio addasrwydd ymarferwyr, gan sicrhau bod ganddynt y sgiliau, y profiad a’r cymwysterau priodol i gyflawni eu rolau. Maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau’n glir. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn adolygu'r polisi ar gyfer gwirfoddolwyr, sy’n cynnwys prosesau recriwtio diogel a hyfforddiant. Er bod diwylliant o gyfathrebu anffurfiol dyddiol, nid yw pob ymarferydd yn derbyn goruchwyliaeth un-i-un yn rheolaidd. Mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i fyfyrio’n systematig ar ansawdd eu harferion a chodi materion yn ymwneud â diogelwch neu ddatblygiad proffesiynol. Yn ogystal, nid yw pob ymarferydd wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf i ddarparu triniaeth briodol pan fo angen. Mae arweinwyr yn trefnu arfarniadau blynyddol

priodol ar gyfer ymarferwyr. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cytuno ar dargedau datblygu unigol. Maent hefyd yn cefnogi ymarferwyr i fynychu hyfforddiant perthnasol buddiol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r lleoliad a'u targedau unigol.

Mae arweinwyr a'r pwyllgor rheoli yn cydweithio'n foddhaol i sicrhau bod polisïau statudol ar waith. Maent yn cyfathrebu'n rheolaidd ar faterion sy'n ymwneud â rhediad y lleoliad ac yn gefnogol wrth hyrwyddo'r lleoliad yn y gymuned leol a thu hwnt. Mae arweinwyr yn trefnu digwyddiadau gwerthfawr sy'n annog cyfranogiad rhieni a gofalwyr megis partïon diwedd tymor a pharti te Sul y Mamau. Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn sy'n sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd buddiol i baratoi i'r cam nesaf yn eu haddysg.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol/Prysg (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/06/2026